gunsmoke communications
PR | MEDIA | MARKETING




**MAE PROSIECT NEWYDD yn y Rhyl gyda'r nod o drechu unigrwydd wedi bod yn llwyddiant ar ôl sicrhau cyllid i'w ariannu am 12 mis arall.**

Dosbarthwyd *Rhodio'r Rhyl* – cylchgrawn am ddim a grëwyd gan Gyngor Tref y Rhyl – am y tro cyntaf ar ddechrau'r flwyddyn.

Wedi ei anelu at bobl hŷn a'r rhai a effeithiwyd fwyaf gan y cyfnodau clo, roedd y cylchgrawn yn cynnwys ryseitiau, gweithgareddau fel posau a lluniau i'w lliwio, ynghyd â syniadau o bethau i'w gwneud.

Roedd y cylchgrawn am ddim i'w lawrlwytho, gyda rhifynnau papur yn cael eu hanfon at unrhyw un a oedd yn gofyn am un.

Fodd bynnag, roedd y cyngor yn gwybod na allai rhai pobl lawrlwytho copi, ac y byddai'n well gan eraill gael fersiwn wedi ei argraffu. Gwnaeth y cyngor gais i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, sydd nawr wedi rhoi mwy na £8,000 mewn cyllid i gefnogi'r prosiect.

Bydd y cyllid yn galluogi i'r prosiect barhau tan 2022 ac yn galluogi i'r cyngor anfon copïau i grwpiau, cartrefi nyrsio a gofal ac unigolion yn y dref.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Diane King: "Mae'r cyfnodau clo yma, o gael eu gwahanu oddi wrth ffrindiau a theulu, wedi achosi caledi a phryder go iawn i rai yn ein tref. I rai pobl, gall fod yn beth amser eto nes byddant yn gweld ffrindiau a theulu unwaith eto. Efallai bod bywyd yn dechrau dod yn ôl i normal, ond mae'n broses araf.

“Roeddem eisiau rhoi rhywbeth i bobl ei wneud, yn enwedig pobl ar eu pennau eu hunain, ac felly ganwyd *Rhodio'r Rhyl.* Roeddem hefyd eisiau gallu dosbarthu copïau go iawn y tro yma, er enghraifft, rhoi copïau i gartrefi gofal.”

Bydd yr arian yn galluogi i'r cyngor gynhyrchu pedwar copi dwyieithog arall dros y 12 mis nesaf.

Dywedodd Ruth Bates, Cyfarwyddwr Interim Cymru gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: “Diolch i chawraewyr y Loteri Genedlaethol, mae cymunedau ledled Cymru wedi cael effaith anferth, gan gefnogi ei gilydd dros y cyfnod anodd hwn. Wrth i ni edrych tuag at y dyfodol, rydym yn gwybod y bydd pobl yn parhau i wneud gwahaniaeth positif i fywydau ei gilydd, diolch i'r gefnogaeth wych a ddarparwyd gan y grwpiau a ariannwyd y mis yma.”

I dderbyn y copi nesaf o *Rhodio'r Rhyl* cysylltwch â enquiries@rhyltowncouncil.org.uk, neu anfonwch neges at y cyngor drwy Facebook/Twitter.

Dolennau i rifyn cyntaf *Rhodio'r Rhyl Read* yma:
Saesneg: https://bit.ly/2PtSn8v.
Cymraeg: https://bit.ly/3uUASys

**Diwedd**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications